**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 21ain Mai 2003**
**Eitem: 4**

**DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990**
**CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW**
**DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991**
**RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994**
**DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990**
**CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU**

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

## ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO

## GWRANDAWIADAU APÊL PRESTATYN Y RHYL

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Penodi cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Cynllunio i ymddangos yn y gwrandawiadau apêl uchod.

### 2. CEFNDIR

2.1. Cyflwynwyd apeliadau yn erbyn ceisiadau cynllunio a wrthodwyd gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ar 29ain Ionawr 2003. Gwrthodwyd y ceisiadau yn groes i argymhellion y Swyddogion i roddi caniatâd cynllunio.

2.2. Mae cais rhif 43/2202/0946/PF ar gyfer adeiladu estyniad un llawr i du blaen, cefn ac ochr Prestatyn ac fe'i gwrthodwyd oherwydd yr effaith fawr a cholli goleuni a fyddai'n deillio i rifau . Cymerwyd y penderfyniad ar ôl ymweliad gan y panel archwilio'r safle.

2.3. Mae cais rhif 45/2002/1183/PF yn gais amlinell i ail-ddatblygu'r safle ar gornel Vale Road a Marsh Road i ddibenion adwerthu gyda newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau. Gwrthodwyd y cais oherwydd cynnydd yn y defnydd o fynedfa gerbydau ar gyffordd prysur gyda goleuadau rheoli traffig. Gwrthwynebodd y Pennaeth Priffyrdd y cais.

### 3. CÔD ARFERION GORAU

3.1. Mae'r Côd Arferion Gorau ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion sy'n delio gyda Materion Cynllunio yn nodi ym mharagraff 9.3 y bydd angen i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ymddangos mewn gwrandawiad apêl pan fo argymhelliad Swyddog wedi ei wyrdroi. Dywed y Côd mai'r Pwyllgor Cynllunio sy'n penodi cynrychiolwyr.

3.2. Yn unol â'r trefniadau a gytunwyd ar gyfer cyfranogiad Aelodau mewn apeliadau cynllunio, ymgynghorir gyda'r aelodau a benodir ar y datganiad achos a baratoir gan Swyddogion ac fe wneir trefniadau ar gyfer cyfarfod cyn-gwrandawiad gyda'r Aelodau dan sylw, gan gynnwys aelodau'r wardiau lleol.

3.3. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r dyddiadau ar gyfer y gwrandawiadau wedi eu penderfynu ond caiff yr Aelodau eu diweddaru yn llafar yn y cyfarfod.

3.4. Rhagwelir y bydd y Swyddog Cynllunio hefyd yn cynorthwyo wrth gyflwyno achos y Cyngor yn y gwrandawiadau ac fe ddewisir y Swyddog ar sail y cyngor ym mharagraff 9 o'r Côd Arferion Gorau. At hyn, bydd Swyddog o'r adran Briffyrdd hefyd yn ymddangos yn y gwrandawiad ar gyfer Vale Road.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1. **Bod y Pwyllgor Cynllunio yn penodi cynrychiolwyr i ymddangos ar ran y Cyngor yn y gwrandawiadau uchod**.

## ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO

## ENWI STRYDOEDD

## STÂD Y PARC, ODDI AR HEOL ESGOB, LLANELWY

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn am farn yr Aelodau ar yr enwau gwahanol a gyflwynwyd ar gyfer y ffordd ar y datblygiad uchod (copi o'r cynllun lleoliad a chynllun y safle **ynghlwm**)

### 2. Y CYNNIG

2.1 O'r rhestr wreiddiol o enwau a gyflwynwyd, dim ond dau a ddodwyd ar y rhestr fer gan yr ymgynghorai ar gyfer ystyriaeth - Lôn y Parc a Pharc Gwenffrewi.

### 3. YMATEB GAN YR YMGYNGHORAI

3.1 Ymgynghorwyd gyda'r gwasanaethau argyfwng a phost, y Cyngor Cymuned a Chynghorydd y Ward ac fe nodir eu sylwadau isod:

**Adran Codau Post a Swyddfa Ddidoli'r Swyddfa Bost -** Dim gwrthwynebiad i'r un o'r ddau enw.

**Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru** - Dim ymateb

**Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru** - Dim gwrthwynebiad i Lôn y Parc ond soniwyd ar lafar nad oedd gwrthwynebiad i'r un o'r ddau

**Heddlu Gogledd Cymru** - Y ddau enw yn iawn

**Cyngor Tref Llanelwy** - Yr opsiwn gorau yw Parc Gwenffrewi gan fod mwy o gysylltiad gyda meddiant hanesyddol y tir (Eglwys Santes Gwenffrewi)

**Cynghorydd y Ward -** enw gorau yw Lôn y Parc

**Darpar feddianwyr y safle -** maent wedi mynegi dymuniad bod eu barn yn cael ei chymryd i ystyriaeth pan yn gwneud penderfyniad, ac wedi mynegi dymuniad am Lôn y Parc.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 **Bod yr Aelodau yn penderfynu ar enw'r ffordd, gan gymryd y sylwadau uchod i ystyriaeth -**
**Lôn y Parc neu Barc Gwenffrewi**.

Atodiadau ddim ar gael ar ffurf electronig

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**21 MAI 2003**
**AGENDA EITEM. 7**

## ADRODDIAD Y PENNAETH CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. PWRPAS**

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Ar ôl ymgynghori penderfynwyd mai **ddydd Mawrth, 27 Mai, 2003** sydd fwyaf addas Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Cynghorir chi felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle **ddydd Mawrth, 27 Mai, 2003.**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno i gynnal yr Ymweliad Safle ddydd Mawrth, 27 Mai, 2003**

# Penderfyniadau a Gymerwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio dan Hawliau Dirprwyedig 1af - 30ain Ebrill 2003

## Eitem er Gwybodaeth

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle cymerwyd pende rfyniadau eisoes dan ha dirprwyedig. Os ydych yn dymuno trafod y cais/penderfyniad, yna cysylltw Swyddog Achos os gwelwch yn dda.**

**<u>MATHAU O BENDER</u>FYNIAD**

| | |
|---|---|
| **CANIATAU** | **- rhoi caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD** | **- gwrthod pob math o geisiadau** |
| **CYMERADWYO** | **- cymeradwyo materion neilltuedig neu amod** |
| **CANIATÂD** | **- rhoi caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth ne hysbysebu** |
| **TYBIEDIG** | **- dim angen caniatâd hysbysebu** |
| **DIM GWRTH** | **- dim gwrthwynebiad i goeden(coed) mewn ardaloedd cadwraeth** |
| **DIM ANGEN** | **- nid oes angen caniatâd ar gyfer y cais** |
| **PENDERFYNU** | **- penderfyniad nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen neu rhoddir ar benderfynu cais (gwaith telegyfathrebu amaethyddol penodol)** |
| **DAT. A GANIATEIR** | **- canfod bod cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl der** |
| **TYNNU'N ÔL** | **- cais wedi ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS** | **- canfod bod cais yn annilys** |
| **TYSTYSGRIFO** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithiol** |
| **G.TYSTYSGRIFO** | **- gwrthod cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |